PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 12 | Mawrth 21, 2024 | 50c.

## Y Golofn Ryngwladol - Haiti

**Tristwch o'r mwyaf yw gweld yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Haiti yn ddiweddar.**




Gyda phopeth yn symud mor gyflym, mae'n anodd dychmygu beth fydd y sefyllfa erbyn y bydd y geiriau hyn yn ymddangos yn *Y Tyst* ond, ar hyn o bryd, wrth i mi ysgrifennu, mae'r prif weinidog, Ariel Henry, oedd wedi ei atal rhag dychwelyd i'r wlad o daith dramor, wedi ymddiswyddo, mae gangiau arfog yn rheoli'r strydoedd ac mae'r wlad i gyd yn ymdroelli'n raddol tuag at anarchiaeth lwyr. Ni allwn ond gobeithio y daw rhywbeth i atal hynny rhag digwydd.

### Daeargryn 2010

Cwta un mlynedd ar ddeg yn ôl yr oeddwn i yno, a hynny yng nghwmni Gwynn Angell Jones, Elenid Jones, Jeff Williams a Tom Defis. Pwrpas yr ymweliad oedd casglu deunyddiau ar gyfer apêl fawr yr Undeb a Chymorth Cristnogol yn 2013–14. Roedd y wlad, yr adeg honno, wedi ei hergydio'n drwm gan ddaeargryn yn 2010 a chorwynt Sandy yn 2012. Yr oedd angen cymorth, a ninnau, fel cymaint o gwmpas y byd, yn ceisio ymateb i'w sefyllfa.
Croesawyd ni i'r wlad gan un o weithwyr Cymorth Cristnogol, Prospery Raymond, a'r tîm yr oedd yn ei arwain. Buom yno am wyth diwrnod yn crwydro yma a thraw, ac wedi cael yr wybodaeth a'r lluniau yr oeddem eu hangen, daethom yn ôl i Gymru a chynnal yr apêl. Wedi blwyddyn o weithgarwch ar lawr gwlad ymhlith yr eglwysi, yr oeddem fel Annibynwyr wedi llwyddo i gasglu dros £193,000 gyda'r bwriad o hyrwyddo amrywiol brosiectau yn Haiti. Pa syndod, felly, fod yr hyn sy'n digwydd yno heddiw o ddiddordeb mawr i ni.



*Tom Defis, Laurent Lamothe (prif weinidog Haiti), Geraint Tudur ac Elenid Jones*

### Prif weinidog

Tra buom yn y wlad, bu i ni gyfarfod â nifer y bobl. Yn wir, cawsom ysgwyd llaw â'r prif weinidog, Laurent Lamothe, wedi i ni gael ein cyflwyno iddo mewn bwyty yr oeddem yn digwydd bod ynddo pan gyrhaeddodd i gael ei swper un noson gyda'r fintai o wŷr arfog oedd yn ei warchod. Pur nerfus oeddent hwy wrth i Prospery Raymond ei hebrwng tuag atom ac, o ganlyniad, pur nerfus oeddem ninnau o weld y gynnau wrth i ni gael ei gyfarch!

Ond yr oedd eraill hefyd y gwnaethom eu cyfarfod, y rhai yr oeddem wedi dod yno i'w gweld. Y wraig yn y llaethdy, y gweithwyr oedd yn ailadeiladu'r wlad, y rhai oedd yn cadw cychod gwenyn ac yn gwerthu'r mêl, y rhai oedd yn gwneud dillad, y rhai oedd yn trin y tir, a'r rhai

*parhad ar y dudalen gefn*

## Cawl a Chân ym Mhontyberem

Ar fore Sul 3 Mawrth cyflwynodd plant yr eglwys oedfa i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd datganiadau cerddorol a'r neges am y newyddion da ar lafar ac ar gân.



Cynhaliwyd noson Gawl a Chân ar nos Lun 4 Mawrth yn festri'r capel gan Gymdeithas Criw Caersalem. Yn dilyn llond bola o gawl a chacennau bu ein haelodau amldalentog yn diddanu'r gynulleidfa niferus i ddathlu gŵyl ein nawddsant Dewi. Diolch i bawb a gymerodd ran mor ardderchog.



# Y PAB A BANER WEN WCRÁIN



Er bod parchu enwadau eraill yn graidd i'n traddodiad ni fel Annibynwyr, anodd peidio synnu at ddatganiad diweddar y Pab Ffransis am 'godi'r faner wen' yn Wcráin. Roedd yn siarad ar sianel deledu yn y Swistir am yr angen i ddechrau trafodaethau i ddod â'r rhyfel i ben. Anodd anghytuno â hynny. Ond yna, mewn ateb i'r cwestiwn a ddylai Wcráin godi'r faner wen, ychwanegodd: 'When you see that you are defeated, that things are not going well, you must have the courage to negotiate ... the courage of the white flag.'

Mae honiad y Pab bod Wcráin yn mynd i golli'r rhyfel wedi achosi dicter a siom fawr yno ac mewn nifer o wledydd ledled y byd – ar wahân i Rwsia, wrth gwrs. Roedd y sylwad yn fêl ar fysedd Vladimir Putin, sydd â gwarant yn ei erbyn gan y Llys Troseddau Rhyngwladol i'w arestio i ateb cyhuddiad o drosedd rhyfel.

### Cythruddo Catholigion

Does fawr o awdurdod gan y Pab yn Wcráin, gan mai dim ond 9% o bobl y wlad honno sy'n perthyn i'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Cristnogion Uniongred yw 72% o'r boblogaeth, aelodau o'r traddodiad Cristnogol ail fwyaf yn y byd, wnaeth dorri'i ffwrdd o awdurdod Rhufain yn y flwyddyn 1054. Yn sgil sylwad y Pab, fe wnaeth yr Eglwys Gatholig Roegaidd yn Wcráin ddatgan yn glir y byddai goresgyn y wlad gan Rwsia yn golygu dinistrio'u henwad hwy, yn ogystal ag Eglwys Uniongred Wcráin (sy'n annibynnol o Foscow), ac unrhyw sefydliad diwylliannol neu grefyddol arall sy'n gwrthwynebu gorthrwm Rwsia.

Yng Ngwlad Pwyl, sy'n ffinio gydag Wcráin, mae bron i 72% o'r bobl yn Gatholigion. Yno, bu ymateb chwyrn i sylwadau'r Pab Ffransis. 'Pam na wnaeth y Pab alw ar Putin, yr Adolf Hitler cyfoes, i dynnu ei luoedd arfog o Wcráin?' holodd Radek Sikorski gweinidog tramor Gwlad Pwyl. 'Yna daw heddwch cyn trafod.'

### Tanseilio Wcráin

Bu datganiad hynod anffodus y Pab yn ergyd i lywodraeth a phobl Wcráin. Wrth i sylw'r byd symud i gyfeiriad Gaza ac Israel, a'r angerdd cynnar dros gefnogi Wcráin oeri ar ôl dwy flynedd o ryfel, mae arwyddion bod cefnogaeth ymarferol gwledydd y gorllewin yn gwegian. Gallai ailethol yr anwadal Donald Trump olygu y byddai cymorth anferth America yn dod i stop sydyn. Dyna fyddai diwedd Wcráin.

### Heddwch bregus

Fe ddaw'r rhyfel yma i ben rywbryd, ond beth fydd natur a phris yr heddwch? Os mai heddwch yn dilyn goresgyn Wcráin fydd e, fe allai hynny arwain at densiynau llawer mwy peryglus, wrth i Rwsia ddod wyneb yn wyneb â gwledydd NATO yn nwyrain Ewrop. Hyd yn oed os bydd Wcráin a Rwsia yn cytuno ar gadoediad, a hwnnw'n troi'n un parhaol, bydd hi'n cymryd blynyddoedd maith i bobl Wcráin faddau i'w cymdogion am yr ymosodiad creulon ar eu gwlad. Yn y cyfamser, byddai'n beth call i arweinwyr crefyddol a seciwlar bwyso a mesur eu sylwadau'n ofalus iawn.

**Alun Lenny**

# Eironi Sul y Mamau

Ychydig o sylw a roesom yn y capeli i lawer o'r dyddiau gŵyl a ddethlir gan draddodiadau Cristnogol eraill, ac aeth eu hystyr a'u harwyddocâd o'r herwydd yn angof i ni. Un o'r dyddiau hynny yw Sul y Mamau, a ddethlir heddiw. Tybed faint ohonoch sy'n sylweddoli nad oedd a wnelo'r Sul hwn yn wreiddiol ddim oll â mamau?



Byddai Eglwyswyr da'n medru dweud wrthych nad mamau na neiniau ond yn hytrach eglwysi yw'r 'mamau' yn 'Sul y Mamau'. Yn wreiddiol, ac yn draddodiadol, cyfle oedd y Sul hwn i bobl fynd adref i'w 'mam eglwys'. Byddai plant oedd yn gweithio oddi cartref, yn cynnwys merched a fyddai'n gweini mewn trefi dieithr, yn cael diwrnod o'r gwaith i fynd adref i addoli yn yr eglwysi y cawsant eu magu ynddynt. Yn sgil hynny wrth gwrs, deuai cyfle i weld y teulu; ond ymweld â'r 'fam eglwys' oedd pwrpas y diwrnod.

### Cadw draw

Cefais fy sicrhau gan ffrind i mi yn Llanberis bod yr Eglwys yng Nghymru'n dal i roi sylw i ystyr wreiddiol y dydd. Ond eironi'r peth yw ein bod ers tro byd wedi arfer â gweld pobl yn cadw draw o'r oedfa neu'n ymddiheuro na fydd eu plant yn yr ysgol Sul 'am ei bod yn Sul y Mamau, a bod y teulu wedi trefnu i fynd am ginio.' Wrth reswm, fedr gweinidog na'r traddodiad anghydffurfiol a anwybyddodd y dyddiau gŵyl ddim synnu na chwyno o weld peth felly!

### Mam eglwysi

Beth bynnag a wnawn o Sul y Mamau, mae tarddiad yr ŵyl yn gyfle i ni ddiolch am ein 'mam eglwys' ein hunain. I rai ohonoch, yr eglwys yr ydych yn aelod ynddi yw honno. I eraill, eglwys arall, yn y fro hon neu yn yr ardal y'ch magwyd ynddi. Ac i eraill eto, nid eglwys eich plentyndod ond yr eglwys y daethoch i ffydd yn Iesu Grist trwyddi. Mae amryw o'r eglwysi hynny, gwaetha'r modd, wedi eu datgorffori erbyn hyn, a'r capeli wedi hen gau. Ond ble bynnag oeddent, a beth bynnag eu hanes heddiw, diolchwn i Dduw amdanynt gan drysori o'r newydd gymdeithas a thystiolaeth a gweinidogaeth yr eglwysi a'r bobl a gyflwynodd i ni'r newyddion da am Grist a'i groes a'i fedd gwag. Ac o ddiolch amdanynt, gwerthfawrogi hefyd ddarpariaeth a chymdeithas a gweinidogaeth ein heglwysi heddiw, gan ymroi hyd eithaf ein gallu i'w gwaith a'u haddoliad a'u cenhadaeth yn y gobaith y gwelwn, trwy ras Duw, lawer eto'n dod i'w hanwylo fel eu 'mam eglwysi' hwythau.

**John Pritchard**

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 21 2024 RHIF 160

## Derbyniad Rhyngwladol a Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi

Roedd y ddeuddydd 6–7 Mawrth yn gyfnod arbennig i gynrychiolwyr seneddol a mudiadau crefyddol yng Nghymru a thu hwnt. Bore Iau, 7 Mawrth, cynhaliwyd Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi a chafwyd Derbyniad Rhyngwladol dan nawdd Athrofa Evan Roberts y noson cynt. Sefydliad sy'n gwarchod safleoedd hanesyddol mewn cysylltiad â Diwygiad 1904/5 ac yn trefnu rhai digwyddiadau yn y Senedd yw Athrofa Evans Roberts.

Ymhlith y siaradwyr yn nerbyniad Athrofa Evan Roberts yr oedd Siân Wyn Rees, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru. Soniodd am ei braint fawr o gael arwain y gwaith a chydweithio â thîm mor arbennig wrth ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 220 oed. Cyfeiriodd at y dechreuadau yng Nghymru a'r cysylltiad enwog â Mary Jones a Thomas Charles yn y Bala.

Ymhlith y siaradwyr yn y Brecwast Gweddi yr oedd Elin Jones, Llywydd Senedd Cymru; Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru; Seán Ó Fearhaíl TD, Ceann Comhairle, Dáil Éireann; a'r Dr Rowan Williams, cyn-Archesgob Caergaint. Cafwyd hefyd berfformiadau gan y tenor Rhys Meilyr Jones, y bariton Owain Rowlands a'r pianydd Rhiannon Pritchard, a'r delynores Bethan Semmens.



Dr Rowan Williams yn annerch y Brecwast Gweddi Seneddol

## Brecwast Gweddi Sir Benfro

'Y Brecwast Gweddi gore, mor belled!' 'Brecwast o'r safon ucha.' 'Wedi mwynhau ma's draw. Braint oedd cael mwynhau bwyd hyfryd a chymdeithas felys, ond yn bennaf oll clywed tystiolaeth gadarn am ras Duw a hynny yn Gymraeg.' Dyma rai ymatebion i'r Brecwast Gweddi pan ddaeth tua 110 o bobl at ei gilydd yng Ngwesty Allt-yr-afon, Cas-blaidd, fore Sadwrn, 2 Mawrth. Blasus tu hwnt oedd y brecwast – 'Full Welsh', wrth gwrs – wedi ei weini'n gynnes a phroffesiynol gan staff gofalgar y gwesty, a'r cyfan yn digwydd mewn awyrgylch cyfeillgar. Harddwyd y byrddau â blodau prydferth, gwaith graenus Llinos Twigg.

Yn dilyn toriad byr cawsom ein harwain mewn sesiwn o stori a chân gan Cath Woolridge a Rachel Mathias, o Sound of Wales – ardderchog! Cafodd y gwesteion gyfle i ymuno yn nifer o'r emynau traddodiadol, fel 'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod', 'Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri' a 'Dyma gariad fel y moroedd'. Roedd yn braf clywed rhai emynau newydd hefyd, ffrwyth gwaith yr Ysbryd Glân yn ein dydd ni. Soniodd Cath am ryfeddod cariad Duw a'i ffyddlondeb ym mhob storm mewn bywyd. Ei hanogaeth oedd ar i bawb bwyso ar ei gariad a ddatguddiwyd yn Iesu Grist, ei Fab.

Cawsom ein harwain mewn gweddi gan unigolion ar themâu gwahanol: Bonni Davies yn gweddïo dros fyd amaeth; Siân Elin Thomas dros fyd addysg; Catrin Isaac Thomas dros y gwasanaethau brys; a Geoff Eynon dros Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd y gweddïau'n ddwys, yn afaelgar a chofiadwy.

Yna cawsom ail sesiwn gan Cath a Rachel, a'r ddwy'n canu mor swynol. Mae'n amlwg bod eneiniad Duw arnynt. Er eu bod eisoes wedi arwain addoliad ar draws Prydain, mewn cynadleddau mawr a bach, dyma'r tro cyntaf iddynt wneud hynny yn y Gymraeg. Braf oedd eu gweld yn mentro ar ddefnydd cyhoeddus o'r iaith Gymraeg. Efallai y bydd y dechreuad hwn yn y Brecwast Gweddi yn arwain at bethau mawr ac y byddwn yn medru tystio maes o law fod hyn wedi dechrau gyda ni yn sir Benfro!

Cafodd nifer eu cyffwrdd gan gyfraniadau Cath a Rachel a'r gweddïau dwys. Mewn dydd o drai ar grefydd yng Nghymru, roedd hi'n braf gweld cynifer o bob oed wedi dod i frecwast gweddi o bob rhan o sir Benfro a rhai o sir Gâr. Estynnir ein diolchiadau i Gronfa Langton am gynorthwyo'n ariannol i sicrhau bod tua deunaw o bobl ifanc wedi cael y cyfle i fynychu'r Brecwast am ddim ac wedi elwa o fod yn rhan o ddigwyddiad Cristnogol cyffrous. Mae'r negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, galwadau ffôn a sgyrsiau unigol wedi bod yn llawn o werthfawrogiad am y Brecwast Gweddi eleni. Gellir cael llawer mwy o fanylion am weinidogaeth Cath a'i phriod, Dai, ar wefan Sound of Wales: https://www.soundofwales.org.uk.

Wrth gwrs, un peth yw mynychu Brecwast Gweddi sirol unwaith y flwyddyn, peth arall yw ymroi i weddïo'n gyson dros sir Benfro. Pwy tybed a ddaw i sefyll yn y bwlch i weddïo'n gyson am adfywiad ysbrydol yn ein sir?

*Geraint Morse*

# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 6 Gyda'n gilydd

**Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon**

A fedrwch chi feddwl am achlysur pan fuoch chi'n siarad am bwnc a oedd yn agos at eich calon? Beth ddigwyddodd? Sut wnaethoch chi deimlo?

**Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 4.30-32**

Gofynnodd [Iesu] wedyn: "Sut mae disgrifio teyrnasiad Duw? Pa ddarlun arall allwn ni ddefnyddio? Mae fel hedyn mwstard yn cael ei blannu yn y pridd. Er mai dyma'r hedyn lleia un mae'n tyfu i fod y planhigyn mwya yn yr ardd. Mae adar yn gallu nythu a chysgodi yn ei ganghennau!"

**Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn**

Os ydych chi eisoes wedi gwneud defnydd o'r pecynnau cwrs eraill o'r gyfres Taclo Tlodi, efallai eich bod yn sylwi fod hwn yn edrych ychydig yn wahanol. **Mae'r pecyn hwn yn canolbwyntio ar eich cefnogi chi a'ch eglwys i gymryd camau a chodi llais ynglŷn â thlodi yn 2024.** Fe fyddwn ni'n tynnu o rai o'r adnoddau o rannau eraill y gyfres. Os ydych chi'n defnyddio'r pecyn hwn fel sylfaen ar gyfer sesiwn unigol, peidiwch â phoeni! Fe gewch chi'r dolenni-cyswllt i ganfod ein deunyddiau Taclo Tlodi clywedol a fideo, os hoffech chi eu harchwilio.

Ar gyfer y grwpiau i gyd, rydyn ni'n argymell ymgynghori â'r pecyn Arweinwyr Grwpiau am wybodaeth cyn ichi ddechrau'r sesiwn hon.

**Myfyrdod: Pa wahaniaeth allwn ni'i wneud trwy godi llais gyda'n gilydd am dlodi yn 2024?**

Mae tlodi'n boenus. Mae'n boenus pan fo plentyn yn mynd i'w wely heb fwyd; mae'n boenus pa na all ein cymydog fforddio cartref parchus; mae'n boenus pan fo effaith tlodi'n cael ei deimlo'n anghyfartal ar draws y byd.

Ond **dydy tlodi ddim yn anorfod**. Gall newidiadau a wneir gan y rhai hynny sydd mewn grym, a'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud, orfodi pobl i mewn i dlodi. Gall ein newidiadau hefyd newid y systemau a'r strwythyrau sy'n creu tlodi.

Yn 2024, fe fydd y DU yn cynnal Etholiad Cyffredinol. Dydy'r sesiwn hon ddim yn sôn am y ffordd y dylech chi fwrw eich pleidlais. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chydnabod y gall ein pleidleisiau a'n lleisiau lunio'r agenda yn ein cymunedau a'n gwlad. **Gyda'n gilydd, medrwn wneud gweithredu ar dlodi yn flaenoriaeth i'r rhai hynny sydd â grym gwleidyddol, pa bynnag blaid y maen nhw'n perthyn iddi.** Medrwn sicrhau bod gweithredu'n digwydd lle rydyn ni'n byw ac yn ein heglwysi. Fe allen ni hyd yn oed gael effaith yn fyd-eang. **Yn 2024, fe allwn ni wneud gwahaniaeth.**

Mae'r sesiwn hon i gyd ynglŷn â datblygu eich cynllun Taclo Tlodi eich hunan. **Rydyn ni am ichi blannu hadau newid y gallwn eu meithrin gyda'n gilydd – hadau a fydd yn tyfu teyrnas o gyfiawnder a chariad Duw.**

Dewch inni edrych ar rai o'r darnau o'r Beibl y gellid eu canfod yn rhai o'n deunyddiau Taclo Tlodi eraill:

*Beth dw i eisiau ydy gweld cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo, a thegwch fel ffrwd gref sydd byth yn sychu. (Amos 5.24)*

*"Felly," meddai Iesu, "yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?" Dyma'r arbenigwr yn y Gyfraith yn ateb, "Yr un wnaeth ei helpu." A dwedodd Iesu, "Dos dithau a gwna'r un fath." (Luc 10.36-37)*

*Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i, oherwydd mae wedi fy eneinio i i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd. (Luc 4.18 ac Eseia 61.1)*

**Cyfiawnder. Tegwch. Trugaredd. Newdyddion Da. Sut fase hi'n edrych petaen ni'n llunio ein hymateb i dlodi fel cymdeithas o gwmpas yr egwyddorion hyn?**

Yn y cyfweliadau sain a'r ffilmiau a archwiliwyd yn sesiynau eraill Taclo Tlodi, fe glywson ni gan bobl sy'n ceisio ymateb yn unol â'r egwyddorion hyn. Mae llawer o'r lleisiau a glywyd yn siarad o brofiad bywyd o dlodi. Yr hyn sy'n drawiadol ynglŷn â'r tystiolaethau hyn ydy'r dyfalbarhad mewn gobaith, y gred mewn newid.

"Gall bobl gyffredin fod yn gyfrwng newid. Felly, peidiwch â meddwl na allwch chi wneud, oherwydd mi allwch chi." (Margaret Robinson, Ymgyrchydd Cymorth Cristnogol, y DU)

"Fe gawn ein hannog gan yr ysgrythur, y Samariad Trugarog – mae'n ymwneud â'r eglwys, wyddoch chi, bod yno a bod yn gefn i rywun sydd mewn angen... Fe allwn ni ddal llywodraethau i gyfrif ar eu polisïau, yn enwedig ar yr ymrwymiadau maen nhw'n eu gwneud ... Dewch inni beidio â rhoi'r gorau iddi. Dewch inni beidio â rhoi'r gorau iddi." (Bryar Mlowoka, Mudiad Efengylaidd Malawi)

"... mae'n rhaid i newid ddod o'r gwaelod i fyny … dyna beth ddylai'r eglwys fod yn ei wneud. Rydyn ni mewn cymunedau ledled y wlad, ledled y byd, rydyn ni wedi'n gwreiddio mewn cymunedau ac felly, fe fedrwn gryfhau'r cymunedau hynny, fe fedrwn ni ddangos cariad tuag at y cymunedau hynny, yn y ffordd y gwnaeth Iesu Grist." (Parch. Chris Minchin, Tîm Benwell a Scotswood, Newcastle upon Tyne, y DU)

"Dwi'n gwybod ei bod hi'n haws dweud na gwneud ond dyma lle mae'r Ysbryd yn ein galw i roi o'n hegni ar hyn o bryd yn nhermau chwyldro. Fe fydd yna newid. Efallai nad heddiw, ond yn sicr yfory." (Winnie Baffoe, South London Mission, y DU)

"mae tlodi yn rywbeth y gellir, os gweithiwn ni i gyd gyda'n gilydd, ei ddileu. ... Petae gan bawb y meddylfryd hwnnw na all unrhyw newid ddigwydd, fase yna ddim newidiadau'n cael eu gwneud o gwbl yn y byd." (Ashleigh May, Mums on a Mission, y DU)

"...mae'n rhaid ichi jest ddal ati. Wyddoch chi byth beth ydy'r weithred fach olaf sy'n mynd i ysgogi trawsnewidiad mewn cymdeithas neu mewn llywodraeth yn y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau, y ffordd rydyn ni'n meddwl am bethau, ond fe wyddon ni ei bod hi'n bosib." (Stef Benstead, Ymgyrchydd Anabledd, y DU)

"Cam wrth gam, fe fedrwn ni leihau effeithiau tlodi yn ein cymdeithas … mae'n obaith [gen i] y byddai gweld pawb yn ymuno â'i gilydd fel un yn gwella'r gymuned." (Carlos Valle, Cynghorydd Maes, Comision de Accion Social Menonita, Honduras)

'Efallai bod plannu a thyfu'r un goeden honno'n ymddangos yn beth bach. Ond mae'n beth anferth mewn gwirionedd.' (Stephen Amusala, Gwasanaeth Datblygu Anglicanaidd Gorllewin Kenya)

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 6*
*Gyda'n gilydd*
*(parhad o dudalen 3)*

**Fel y dywed Stephen Amusala, mae'r plannu a'r meithrin hwnnw'n rydyn ni'n ymgymryd â nhw'n gallu edrych yn fach i ddechrau ond fe wyddon ni y gall arwain at newidiadau mawr iawn.**

**Beth allech chi ei wneud i ychwanegu eich llais at y galwadau hyn am newid?**

**Defnyddiwch weddill y sesiwn hon i ddechrau eich cynllun Taclo Tlodi, gan ddilyn y camau isod.**

## Taclo Tlodi: Beth fasech chi a'ch eglwys yn gallu'i wneud?

O'r sgyrsiau gyda llywodraeth leol yn Kenya, i ddeisebau a gyflwynwyd i AS Gogledd Dyfnaint, mae siarad gyda'r rhai hynny sydd â grym gwleidyddol yn rhan bwysig o'n gweithredu ar dlodi.

Fe wyddon ni fod lefelau ymddiriedaeth mewn pleidiau gwleidyddol a'r rhai hynny sydd mewn grym yn isel. Efallai eich bod yn teimlo'n amheus o'r syniad y gall ymgysylltu â'r rhai hynny mewn grym wneud gwahaniaeth.

Fe all fod o ddefnydd i edrych 'nôl ar ein sesiwn Gobaith. Yno, fe wnaethon ni archwilio sut y gall arferion gobaith gynnwys galar a dicter. Does dim angen inni adael ein rhwystredigaethau ar ôl. Fodd bynnag, fe'n galwyd i weledigaeth wahanol. Un lle bo'n byd yn ymdebygu fwyfwy i Deyrnas Dduw.

A fedrwn ni gymryd cam gyda'n gilydd i ddal ein gwleidyddion i gyfrif a phwyso arnyn nhw i weithredu? A allwn ni fyw ein gobaith trwy weithredu?

Gellwch hefyd gymryd golwg ar ein myfyrdod ar Haelioni a phwysigrwydd a gwerth gweithredoedd bychain. Mae pob unigolyn, pob grŵp, pob eglwys sy'n cymryd cam yn ychwanegu at y corws o leisiau sy'n galw allan am fyd mwy cyfiawn, byd lle y gwelir tlodi fel gwarth sydd angen gweld ei ddiwedd.

Ar ein cardiau gweithredu 'Hadau Newid', fe gewch ystod o wahanol gamau y gallwch chi a'ch eglwys eu cymryd i wneud gwahaniaeth.

1. Edrychwch ar y cardiau gweithredu Hadau Newid. (Ar gael yn Saesneg yn unig) (Lawrlwythwch yma)
2. Dewiswch dri cham y gallech chi, eich grŵp, neu eich eglwys ymrwymo iddyn nhw.
3. Defnyddiwch daflen Hau, Dyfrio, Meithrin, Tyfu i'ch helpu i gynllunio eich camau (lle bo angen).
4. Dewch 'nôl at yr ymarferiad hwn wedi'r etholiad cyffredinol a meddwl sut mae modd ichi ddefnyddio'r camau hyn i ymgysylltu â'ch AS newydd.

I daclo tlodi unwaith ac am byth,
mae arnon ni angen eich help.

Rydyn ni angen ichi siarad â gwleidyddion.

Rydyn ni angen ichi ddweud wrth eraill yn eich eglwys a thu hwnt beth allen nhw'i wneud i Daclo Tlodi.

Rydyn ni angen ichi blannu hadau newid.

Wrth i'r DU baratoi ar gyfer Etholiad Cyffredinol eleni, fe fyddwch yn sylwi fod nifer o'r gweithredoedd yn ymwneud ag ymgysylltu gyda'ch AS a/neu'r rhai hynny sy'n gobeithio cael eu hethol (eich darpar-ymgeiswyr seneddol). Hyd yn oed os na wnaethoch chi bleidleisio dros eich AS, mae ganddyn nhw ddyletswydd i'ch ateb ac yn gallu codi eich pryderon yn Senedd y DU, sydd yn aml yn gymorth i ddod â'r mater at sylw'r cyhoedd. Mi fedren nhw wneud hyn, er enghraifft, trwy:

- godi eich mater gyda gweinidogion y Llywodraeth
- dechrau trafodaethau yn y senedd
- gofyn cwestiynau mewn dadleuon
- cynnig newidiadau i ddeddfau dan ystyriaeth

Yn 2024, mae ganddon ni gyfle unigryw i ddylanwadu ar ein ASau sydd i ddod a pholisïau'r prif bleidiau. Mae llawer o'n ASau am gael eu hailethol ac fe fydden nhw'n fwy parod na'r arfer i wrando, fel y bydd ymgeiswyr yr holl brif bleidiau.

Fe fydd yr eglwysi a'r mudiadau sydd y tu cefn i'r pecynnau cwrs Taclo Tlodi hyn gyda chi bob cam o'r ffordd. Cewch hyd i adnoddau Saesneg i'ch cefnogi chi yn: caid.org.uk/actonpovertyresources

Fe gewch hefyd fwy o wybodaeth am weithredu ar dlodi yn y DU yn: letsendpoverty.co.uk a mwy o wybodaeth am sut i weithredu ar dlodi byd-eang yn What to ask your PPC - Christian Aid
Fe fasen ni wrth ein boddau'n clywed ganddoch chi a'r hyn mae eich eglwys yn bwriadu'i wneud.
Os oes angen cymorth ychwanegol, cysylltwch â: campaigns@christian-aid.org

Medrwch rannu eich gweithredoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Tagiwch eich postiadau #TacloTlodi

## Gweddi i Gloi

Arglwydd Iesu,
Rwyt ti'n addo inni y gall dy deyrnas dyfu trwy ffydd fel hedyn mwstard.
Rwyt ti'n dweud wrthon ni bod ein gobeithion am newid yn ddigon, dim ond inni eu meithrin gyda'n gilydd.
Rwyt ti'n dangos inni fod ein gweithredoedd o gariad tuag at ein cymydog yn rhan o'r helaethrwydd o gariad sy'n llifo oddi wrthot ti, yn nerth yr Ysbryd, ac yn bendithio'r greadigaeth oll.
Arglwydd Iesu, y dydd hwn a phob dydd, gwna ni'n blanwyr, yn dyfwyr, yn ddyfrwyr, sy'n credu ac yn ymddiried yn nyfodiad dy deyrnas. Amen.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul y Blodau, 24 Mawrth am 7.30yh**
Ar Sul y Blodau bydd Nia Roberts yng Ngheredigion i gwrdd â Donald Morgan, arbenigwr ar flodau a'u harwyddocâd yn nhymor y Pasg. A chawn fwynhau gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul y Blodau, 24 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Aled Lewis Evans, Wrecsam

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul y Blodau, 24 Mawrth, am 12yp**
Oedfa dan ofal y Tad Alanus, Luton

# ROGW

### *Cofio canmlwyddiant geni'r Parchg Robin Williams (1923–2003)*

*Dyma ail ran yr erthygl.*

**Pregethwr**

Fedra i ddim gadael un ffaith ganolog allan o hanes ei fywyd sef y pregethwr. Bu galw aruthrol amdano gan bob enwad, yn arbennig yn ei flynyddoedd cynnar. Byddai ei bregethau'n gwbl ysgrythurol, yn daclus, a'r traddodi yn llawn angerdd. I'r sawl a glywodd Robin yn y cyfnod hwn o'i fywyd, roedd ei afael ar ysgrythur, ar iaith ac ar gynulleidfa yn ei wneud yn un o'r pregethwyr mwyaf angerddol. Ac mi roedd yna angerdd, angerdd fyddai'n ei yrru i dorri allan i ganu ar ganol pregeth weithiau, a gwneud hynny, wrth gwrs, gyda'r sensitifrwydd mwyaf. A rhaid cofio hefyd y byddai cynulleidfa 'barod' yn y capeli, a honno'n amlach na pheidio'n un lluosog ac yn awchu i glywed y Gair.




*Gan Sain (Recordiau) Cyf., CC BY-SA 3.0,*

**Cyfathrebwr**

Yn 1973, corddodd y dyfroedd eglwysig! Beth wnaeth o? Fyddai hyn yn ddim byd heddiw, ond mi roedd o'n rhywbeth mawr yr adeg hynny – mi adawodd y weinidogaeth fugeiliol tra bu ym Mhenrhyndeudraeth a symud i fyw i Roslan ger Cricieth. O hynny ymlaen, bu'n darlledu pob math o raglenni radio, o fyd crefydd i fyd natur: *Rhwng Gŵyl a Gwaith*, *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, *Caniadaeth y Cysegr*. Tra bu'n cyfrannu at *Rhwng Gŵyl a Gwaith* yn yr wythdegau, creodd gymeriad dychmygol. Pump oed oedd Emrys Aled Parri yn byw ym mhentref dychmygol Tŷ'n y Berth, ac yn y sgyrsiau hyn llwyddodd i ddynwared llais y bachgen bach gan newid y llais o'i un ei hun i un Emrys wrth sgwrsio. Camp! Bu'n cyflwyno hefyd gyfres neu ddwy ar deithiau'r Apostol Paul ar S4C yng nghwmni ei gyfaill Ifor Rees. A daliodd ati i gyfrannu i'r *Herald Cymraeg* yn wythnosol, ac i gyhoeddi llyfrau ac i bregethu.

**Ailgydio**

Wedi symud i fyw i Roslan, a chan mai dim ond un capel oedd yn y pentref, ymaelododd Doris ac yntau gydag eglwys yr Annibynwyr yno. Yn 1981 daeth galw arno i gymryd gofal o'r eglwys Annibynnol yn Seion, Penmorfa ger Porthmadog a threuliodd un mlynedd ar hugain hapus iawn ymysg y praidd yn y fan honno, yn uchel iawn ei barch gan bawb. A gallaf ychwanegu'n gwbl ddibetrus i mi gael Robin yn gymydog ardderchog; yn hael ei gymwynasau ac yn hynaws (a swil ar dro) ei bersonoliaeth. Cofir yn hir am ei gyfraniad gloyw i fywyd Cymru.

Bu farw'n 80 oed yn niwedd 2003 wedi cyfnod byr o salwch, ac ar achlysur canmlwyddiant ei eni (ychydig bach yn ddiweddarach, dyma gyfle yn y fro i ddathlu ei fywyd ar 20 Chwefror yng Nghapel y Traeth, Cricieth. Daw adroddiad am y cyfarfod hwnnw eto.

**Iwan Llewelyn**

# Codi f'Ebeneser?

Yn oedfa'r bore yn Ebeneser Caerdydd yn ddiweddar rydym wedi canu cyfieithiad Cynan Llwyd o emyn Robert Robinson (1735–90), 'Come thou fount of every blessing' sef 'Tyred ffynnon pob daioni'. Mae'r ail bennill yn agor gyda'r geiriau 'Yma codaf f'Ebeneser', sydd yn cyfeirio yn ôl at hanes yn llyfr cyntaf Samuel – 1 Samuel 7:2–14.

Felly beth mae'n ei olygu i 'godi fy Ebeneser'? Mae'r hanes yn sôn am ddiwedd cyfnod pan oedd pobl Israel wedi bod yn anffyddlon i Dduw ac yn ddi-hid yn eu haddoliad. Mae'r proffwyd Samuel yn eu herio i gael gwared â'u duwiau paganaidd a rhoi eu hunain yn llwyr i wasanaethu'r ARGLWYDD. Mae o'n galw pawb at ei gilydd i le o'r enw Mitspa. Yno maen nhw'n addoli Duw ac yn cyffesu eu bod wedi pechu yn ei erbyn. Ond mae eu gelynion, y Philistiaid, yn clywed fod pobl Israel wedi dod at ei gilydd yn Mitspa, ac yn penderfynu ymosod arnyn nhw. Roedd pobl Israel wedi dychryn am eu bywydau. Felly beth ddigwyddodd?

**Cymerodd Samuel faen**

Mae'r bobl yn troi at Samuel ac yn gofyn iddo weddïo drostyn nhw, ac mae Samuel yn gwneud hynny ac yn mynd ati i aberthu oen yn offrwm i Dduw. A dyna pryd wnaeth Duw ateb ei weddi. Darllenwn yn adnod 10: 'Roedd y Philistiaid ar fin ymosod ar Israel pan oedd Samuel yn cyflwyno'r offrwm. A'r foment honno dyma'r ARGLWYDD yn anfon anferth o storm o fellt a tharanau, wnaeth yrru'r Philistiaid i banig llwyr, a dyma nhw'n ffoi o flaen byddin Israel.' Yna dyma Samuel yn gosod carreg i fyny (rhywbeth tebyg i faen hir) i goffáu beth oedd wedi digwydd, ac yn ei henwi yn Ebeneser (sef 'Carreg Help'). 'Mae'r ARGLWYDD wedi'n helpu ni hyd yma,' meddai Samuel wrthyn nhw. Adlewyrchir yr adnod hon yn arwyddair Eglwys Ebeneser Caerdydd: 'Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd ni.'

Tybed a ddylem ninnau hefyd godi ein Ebeneser ni? Cydnabod ein bod ninnau'n rhy aml yn rhoi lle i 'dduwiau' eraill yn ein bywydau, ac yn gallu bod yn anffyddlon ac yn ddi-hid yn ein haddoliad. Gadewch i ni ymroi o'r newydd i addoli Duw, cyffesu a throi ato gyda'r unig aberth sydd gynnon ni i'w gynnig iddo – sef yr Oen, yr Arglwydd Iesu Grist. Yng ngeiriau Salm 33:20 – 'Mae'n gobaith ni yn yr ARGLWYDD!

Fe sy'n ein helpu ni, ac yn darian i'n hamddiffyn ni.'

**Arfon Jones**



# Barn Annibynnol

## ‘Petaet ti ond wedi deall ...’

Roedd gweld y ddinas wrth iddo ddod dros ael y bryn yn ddigon i beri i Iesu wylo. Nid dros ei hunan ond dros y ddinas a’i phobl. ‘Petaet ti wedi deall ... wedi adnabod ffordd tangnefedd!’ Ond roedd ‘yn rhy hwyr.’ (Luc 19.42 beibl.net) Yn rhy hwyr i beth? Rhy hwyr i adfer y sefyllfa a gorfod byw gyda’r ffaith na fyddai heddwch byth yn bosibl? Rhy hwyr i Jerwsalem neu’n rhy hwyr i bob dinas a gwlad? Rhy hwyr i achub tynged yr Un a fyddai mewn awr neu ddwy yn mynd ar ei ymdaith ‘fuddugoliaethus’ drwy strydoedd y ddinas? Rhy hwyr i’r bobl fyddai yn ei gyfarch ar hyd ei siwrnai olaf? Rhy hwyr i bobloedd y cenedlaethau a’r canrifoedd i ddod: ydy tynged y ddynolryw wedi ei phenderfynu unwaith ac am byth gan ymdriniaeth cenhedlaeth Iesu o’r Un oedd ‘yn dyfod yn enw’r Arglwydd’? Ydy hi’n rhy hwyr? Ydy posibilrwydd heddwch wedi ei golli am byth?

### Cwestiynau dirdynnol

Un ganrif ar hugain wedi’r diwrnod tyngedfennol hwn, mae’r rhain yn gwestiynau dirdynnol o hyd mewn byd sy’n dal i gael ei chwalu gan raniadau ac erlid, chwyldro a thrais, rhyfel a gorthrwm. Heddiw mae Haiti yn y newyddion gyda’i gangiau didrugaredd, creulon a phwerus wedi bod yn rheoli strydoedd y brifddinas, Port au Prince, â’u gynau – gyda chyrff y meirw, hyd yn oed, yn cael eu gadael i bydru lle maen nhw, ar ochr y ffordd neu ar wely ar ward mewn ysbyty. Bellach mae’r Arlywydd wedi ymddiswyddo. Tybed a fydd pobl Haiti nawr yn cael ‘adnabod ffordd tangnefedd’? Amheus! Rhaid i’r gymuned ryngwladol roi pob cefnogaeth er mwyn i hynny ddigwydd. Un peth sy’n sicr, bydd Yemen, Syria, Myanmar (Byrma), Colombia, Congo, Swdan a llu o wledydd eraill yn parhau yn y newyddion. Ar ben y rhestr, wrth gwrs, mae Wcráin sy’n dal i gael ei bombardio gan luoedd Rwsia, a Gaza sy’n dal i gael ei ddinistrio gan luoedd Israel i dalu ’nôl am greulondeb ymosodiad Hamas ar y gwersyll yn Israel a laddodd dros 1,200 ac a arweiniodd at herwgipio 250. Hyd yma (11 Mawrth), mae 31,000 o bobl Gaza wedi eu lladd a miloedd, os nad miliynau, bellach dan fygythiad newyn. A beth am ein tuedd i bardduo pobl sy’n meddwl yn wahanol, yn edrych yn wahanol, yn credu’n wahanol, yn byw’n wahanol i ni, fel ‘y gelyn’? ‘Nhw’ sy’n bygwth dinistrio’n gwlad waraidd ni! ‘I lawr â nhw! Rym ni am gael ein gwlad yn ôl!’ meddai’r eithafwyr, gan gynnwys un o gyn is-gadeiryddion y Blaid Geidwadol sydd wedi cael ei daflu allan.

### Rhy hwyr?

Ydy hi’n ‘rhy hwyr’ i hyn i gyd? Mae’n demtasiwn meddwl hynny, onid yw? Beth fedra’ i wneud? Hyd yn oed pan weithiwn gyda’n gilydd, beth fedrwn ni wneud? Onid byd yw hwn bellach lle mae’r grymus yn cael y trechaf ar y gwledydd a lle nad oes lle i dosturi a chymod, trugaredd a chyfiawnder? Onid rhai di-asgwrn-cefn sy’n rhoi blaenoriaeth i gymod? Waeth i ni roi ffidil ein hymdrechion dros heddwch yn y to a gadael i anobaith llwyr am y dyfodol ein llethu a’n parlysu. Does dim dyfodol i’r ddynolryw bellach. Mae’n ‘rhy hwyr’. Ac eto ...

Pan oedd popeth yn ymddangos yn dywyll, yn ‘rhy hwyr’, mynd i’r afael â’r pwerau ymerodraethol wnaeth Iesu. Nhw a’i lladdodd ef. Ond fe’i heriodd nhw ar fore’r trydydd dydd: ‘Cododd Iesu! I wirionedd gorsedd fydd’! Mae bore’r trydydd dydd yn newid popeth.



### Galw am dangnefedd

Mae Iesu’n dal i gerdded i ganol mannau mwyaf peryglus, bygythiol a chreulon y byd, i gynnig, hyd yn oed yno, efallai yn fwyaf arbennig yno, bosibiliadau tangnefedd, cymod a thosturi. Ac mae’n mynnu ein bod ni, ei ddilynwyr heddiw, yn sefyll gydag ef, gan gael ein gwroli gan ei wroldeb di-ildio ef. Fedr y rhan fwyaf ohonom ddim mynd yn llythrennol i ganol y frwydr ond fe allwn godi llais a gwneud safiad. Gallwn gefnogi ymdrechion i gael llywodraethau pwerus a dylanwadol (nid lleiaf rhai sy’n wynebu etholiad yn ystod y misoedd nesaf) i weld pethau’n wahanol, er gwaethaf ein digalondid am fedru disodli unbeniaid creulon, didrugaredd fel Putin, a chael ein llywodraeth ni i ddangos mwy o wroldeb digyfaddawd, mwy o gonsyrn am gymod nag am wneud elw drwy werthu arfau i’r gorthrymus. Gallwn alw am atal y brwydro a chael pobl i ddod o gwmpas bwrdd i drafod cymod a dyfodol mwy cyfiawn, hyd yn oed yn y mannau mwyaf ‘anaddawol’ megis Gaza ac Wcráin.

Gallwn alw am i’r gwledydd pwerus wneud y Cenhedloedd Unedig yn offeryn mwy effeithiol ar y llwyfan rhyngwladol nag ydyw ar hyn o bryd. Gallwn fod yn hael ein cefnogaeth i asiantau megis Cymorth Cristnogol, sy’n dal i weithio mewn gwledydd megis Haiti a Cholombia er gwaethaf y pris uchel mae staff yno yn gorfod ei dalu bob dydd. Gallwn amgylchynu’r cyfan hyn â gweddi, gweddi am gymod, heddwch a thosturi, gweddi dros i Dduw ddwysbigo calonnau a meddyliau’r rhai creulon a threisgar a gweddi dros y sawl sy’n dioddef yn erchyll yn y mannau hynny lle mae’n ymddangos ei bod bellach ‘yn rhy hwyr’. Gweddïwn nad yw’n ‘rhy hwyr’ iddynt ‘adnabod ffordd tangnefedd’.

Mae’n werth cael ein hatgoffa o bryd i’w gilydd mai’r ‘unig beth sydd ei angen i ddrygioni ffynnu yw bod pobl dda yn gwneud dim.’ Nid yw segurdod a diogi yn opsiwn! Nid yw byth ‘yn rhy hwyr’.

**Noel Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)


## Saron Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn dathlu 120 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

1904–2024

Fe’ch gwahoddwn yn gynnes i ymuno gyda ni am Sul o Fawl/Cymanfa ar yr 31 Mawrth am 4 o’r gloch Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb

## Gweinidogaeth

Rydym yn chwilio am weinidog rhan-amser i weinidogaethu ar gapeli Providence, Llangadog a Bethlehem, Dyffryn Ceidrych.

Derbynnir ceisiadau drwy law Mrs Jennifer Hughes, Efail Newydd, Llangadog, Sir Gâr SA19 9BU neu drwy e-bost: jen60@hotmail.co.uk

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Y Golofn Ryngwladol - parhad

oedd yn hyfforddi eraill mewn amrywiol sgiliau. A'r hyn oedd yn drawiadol am y bobl hyn i gyd oedd eu bod mor siriol; er gwaethaf eu tlodi ac er gwaethaf y dinistr oedd o'u cwmpas, yr oeddent yn dal i wenu, yn dal yn serchog, yn dal i chwerthin ac yn groesawus dros ben.

### Darlun cofiadwy

O'r holl luniau a dynnais yn ystod yr ymweliad, y mae un sydd wedi aros gyda mi. Mae wedi ei fframio ac ar wal yma yn fy nghartref. Llun yw o frawd a chwaer y gofynnais am ganiatâd i dynnu eu llun, y ddau yn sefyll yn droednoeth yn nrws eu cartref tlawd, y chwaer yn gwenu'n llydan ac wedi trwsio'i gwallt, ond y brawd yn edrych yn bur ansicr wrth weld y dyn dieithr a'i gamera ffansi yn tynnu ei lun.

Mae'r llun ar y wal yma ers blynyddoedd i f'atgoffa o'r ymweliad â Haiti ond hefyd i'm hatgoffa fy mod, fel llawer eraill o ddarllenwyr *Y Tyst*, ymhlith y 7% mwyaf breintiedig o bobl y byd sy'n mwynhau bywyd diogel a moethus, ac ar ben ein digon.

Daeth apêl Cymorth Cristnogol er budd Haiti i ben yn 2014, a bu i ninnau symud ymlaen. Ond y mae Haiti yn dal yno. Tybed beth yw hanes y brawd a'r chwaer erbyn hyn? A ydynt yng nghanol yr helyntion yr ydym ni'n clywed amdanynt y dyddiau hyn? A ydynt yn dal i fyw yn eu mamwlad? A ydynt yn dal yn fyw o gwbl? Nid oes modd i mi wybod, ond er mai dim ond am eiliadau'n unig y bu i'n llwybrau groesi yr holl amser hwnnw yn ôl, yr wyf yn dal i gofio amdanynt, yn dal i edrych arnynt, a heddiw yn gobeithio ac yn gweddïo y bydd iddynt hwy, ac i weddill eu gwlad, dynnu trwy'r argyfwng presennol a symud ymlaen i ddyddiau gwell.

**Geraint Tudur**





## ✦ENCIL I WEINIDOGION✦

**Ebrill 18-19 yn Nant Gwrtheyrn**

**Thema'r Encil:**
"Dyma'r Arglwydd yn dweud wrth Abram, 'Dwi am i ti...'" (Genesis 12:1).
Beth yw Gair yr Arglwydd i Gymru heddiw? Beth mae'r Arglwydd yn ein galw ni i'w gyflawni?

**Dydd Iau, Ebrill 18**

3:00 Te / Coffi a Chofrestru
3:30 Oedfa Agoriadol — Parchg Jill-Hailey Harries
4:00 Astudiaeth Feiblaidd: Genesis 12:1-9 — Yr Athro Emeritws Eryl Wyn Davies
5:00 Amser rhydd a threfnu llety
6:00 Swper
7:30 Darlith Goffa Dr. Pennar Davies a Dr. Tudur Jones — Parchg Ddr Alun Tudur

**Dydd Gwener, Ebrill 19**

7:00 Epilog a Gweddi ar y traeth *(Dewisiol)* — Parchg Dylan Rhys Parry
8:00 Brecwast
9:30 Gwibdaith i Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr — Defosiwn a Chyflwyniad: Tystiolaeth y Saint – Ymateb i'r alwad — Parchg Canon Ddr Rosie Dymond a'r Parchg Selwyn Griffith
10:45 Te / Coffi yn y Nant
11:15 Duw'n arwain yr eglwysi yn yr 20G. Y llwyddiannau a'r methiannau — Parchg Ddr Siôn Aled
12:00 Seminar. Ein Dealltwriaeth o Genhadu ac Efengylu — Parchg Ddr Alun Tudur
12:45 Cinio
1:30 Panel Holi dan arweiniad Alun Lenny
3:00 Oedfa i Gloi — Parchg Glenys Jones

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru, cysylltwch â'r Parchg Carwyn Siddall, *Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau*



## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Cyfarfodydd Blynyddol 2024**
**Coleg y Cymoedd, Nantgarw**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan bellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*